

TOMOS
A'I FFRINDIAU™

Cadw'n Ddiogel
gyda Tomos



Darllena am Tomos y Tanc a'i
ffrindiau ar reilffordd y Rheolwr
Tew, wrth i Tomos ddysgu mai
cadw'n ddiogel sy'n bwysig, nid
bod yn ddwl a mynd yn gyflym!



NetworkRail



www.thomasandfriends.com

egmont.co.uk
£3.99

ISBN 978-1-7803-1904-9



DEAN

TOMOS A'I FFRINDIAU

★ CADW'N DDIOGEL GYDA TOMOS ★

TOMOS
A'I FFRINDIAU™

Cadw'n Ddiogel
gyda Tomos





Cadw'n Ddiogel gyda Tomos

Yn seiliedig ar
The Railway Series
gan y
Rev. W. Awdry





DEAN

Cyhoeddwyd gyntaf ym Mhrydain Fawr 2018 gan Dean, printiad o
Egmont UK Limited fel Stay Safe with Thomas,
The Yellow Building, 1 Nicholas Road, London W11 4AN



Thomas the Tank Engine & Friends™



CREATED BY BRIT ALLCROFT

Yn seiliedig ar The Railway Series gan y Parchedig W Awdry
© 2018 Gullane (Thomas) LLC. Cwmni HIT Entertainment
Nodau masnach Gullane (Thomas) Limited yw
Thomas the Tank Engine & Friends a Thomas & Friends.
© 2018 Cwmni HIT Entertainment Limited
Mae Thomas the Tank Engine & Friends a'r dyluniad yn
batentau sydd wedi'u cofrestru yn UDA a'r Swyddfa Batentau.
Cedwir pob hawl

Addasiad Cymraeg gan Elin Meek.
Testun Saesneg gan Jane Riordan.
Darluniwyd gan Robin Davies. Dyluniwyd gan Martin Aggett

ISBN: 978 1 7803 1904 9
70212/001

Argraffwyd yn Ewrop

Mae Egmont yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldeb tuag at y planed a'i
thrigolion. Ein nod yw defnyddio papur o goedwigoedd sy'n cael eu
rheoli'n dda ac yn cael eu rhedeg gan gyflenwyr cyfrifol.

Cadwch yn ddiogel ar-lein Nid yw Egmont yn gyfrifol am gynnwys
gan sefydliadau eraill.



*Stori yw hon am sut dysgais i am
fod yn ddiogel ar y cledrau. Mwynha'r
stori a chwilia am bethau rwyf
fi'n gallu eu gwneud er mwyn
cadw'n ddiogel wrth ymyl y
rheilffordd ...*




Roedd gan Tomos y Tanc chwe olwyn fach,
corn bach byr, boeler bach byr a chromen
fach fer.

Injan fach haerllug oedd Tomos. Roedd
e'n meddwl ei fod e'n gwybod popeth am
reilffordd y Rheolwr Tew.



Un bore, daeth y Rheolwr Tew i'r Siediau i roi gwaith y dydd i Tomos.

“Tomos, dy waith di yw cadw dy hunan a'r teithwyr i gyd yn ddiogel,” rhybuddiodd y Rheolwr Tew. “Paid byth â bod yn ddwl pan fyddi di allan ar y cledrau.”




Ond wnaeth Tomos ddim gwrando. Roedd e'n teimlo'n ddwl ac yn haerllug. Rhuthrodd at y Tŵr Dŵr i lenwi ei foeler cyn dechrau ar waith y dydd.

“Mae cael hwyl yn fwy pwysig na bod yn ddiogel,” chwarddodd, wrth ollwng stêm yn swnllyd!




Ond wnaeth Tomos ddim gwrando. Roedd e'n teimlo'n ddwl ac yn haerllug. Rhuthrodd at y Tŵr Dŵr i lenwi ei foeler cyn dechrau ar waith y dydd.

“Mae cael hwyl yn fwy pwysig na bod yn ddiogel,” chwarddodd, wrth ollwng stêm yn swnllyd!



Ychydig yn nes ymlaen, roedd y ffordd yn troi
ac yn croesi'r trac.

“Pam rwyd ti'n aros yn fan 'na?” chwarddodd
Tomos am ben Bertie, wrth wibio heibio iddo
ar y groesfan. “Dwyt ti ddim eisiau rasio?”



On d arhosodd Tomos ddim i wrando ar ateb Bertie. Gwibiodd yn ei flaen, heibio i fferm.

“Mae anifeiliaid yn agos at y trac, Tomos,” rhybuddiodd Annie. “Paid â mynd yn rhy gyflym.”


On d wnaeth Tomos ddim gwrando, a rasiodd e'r ceffyl.



Roedd Tomos yn mynd yn gyflymach nag erioed.

Roedd e'n mynd mor gyflym, doedd e ddim yn gallu stopio yn yr orsaf nesaf – gwibiodd yn syth heibio.

“Gan bwyll!” gwaeddodd Gweithwyr yr Orsaf.




Pan lwyddodd Tomos i stopio o'r diwedd,
roedd y Rheolwr Tew yn wyllt gacwn.

"Rwyf ti wedi gwneud rhywbeth peryglus
iawn heddiw, Tomos," meddai'r Rheolwr Tew.
"Ddylet ti ddim bod wedi annog Bertie i rasio.
Rhaid i bawb sy'n defnyddio'r ffordd stopio
os yw gatiau'r groesfan ar gau, neu os oes
golau coch."



Yna atgoffodd y Rheolwr Tew Tomos am y tro pan oedd giât wedi cael ei gadael ar agor. Roedd gwartheg wedi crwydro ar y traciau, a buodd damwain gas bron â digwydd.

“Rhaid i bawb gau gatiau y tu ôl iddyn nhw,” meddai’r Rheolwr Tew, “a rhaid i injans gadw llygad am anifeiliaid.”



“Pan fyddi di mewn gorsaf,” meddai’r Rheolwr Tew wedyn, “rhaid i ti gadw llygad am blant sy’n sefyll yn rhy agos at y cledrau ac am bobl allai fod wedi gollwng rhywbeth ar y cledrau.”

“Dwed wrth blant am sefyll draw, Tomos,” meddai wedyn, “ac os yw unrhyw un wedi gollwng rhywbeth ar y cledrau, rhaid iddyn nhw siarad â rhywun sy’n gweithio yn yr orsaf, nid ceisio mynd i’w nôl eu hunain.”



“Mae cadw pawb yn ddiogel yn waith mawr, pwysig,” atebodd Tomos.

“Ydy’n wir,” meddai’r Rheolwr Tew. “Ond dwi yma i helpu, a’r peirianwyr ar y rheilffordd hefyd. Maen nhw’n gweithio ym mhob tywydd i gadw’r cledrau’n glir ac yn ddiogel i’r injans ac i’r teithwyr.”



Wrth i'r sêr ymddangos, ac wrth i Tomos fynd
yn ôl i Siediau'r Injans, roedd e'n gwybod mai
bod yn ddiogel, ac atgoffa'r teithwyr i fod yn
ddiogel, oedd y peth mwyaf pwysig.

“Pîp! Pîp” chwibanodd Tomos wrth y
peirianwyr, a oedd yn gweithio drwy'r nos fel
bod y rheilffordd yn rhedeg yn ddiogel.





Pan fyddi di'n mynd ar y trê'n nesa,
ticia'r blychau i ddangos dy fod yn
gwybod sut mae cadw'n ddiogel.

Thaflais i
ddim byd ar y
cledrau.

Arhosais i wrth
groesfan a dilyn
yr arwydd.

Sefais i
draw o ymyl y
platfform.

Stopiais i ddim
ar y cledrau ar
y groesfan.

Edrychais i i'r
ddau gyfeiriad
ar y groesfan.

Arhosais i gyda
fy oedolyn yn
yr orsaf.

Chodais i
ddim byd o'r
cledrau.

Fues i ddim
yn chwarae
ar y cledrau.

Cerddais i'n
ofalus ar y
platfform.